

WALED RITHWIR

Mae'n rhoi rheolaeth lwyr ar eich Taliad Uniongyrchol yn eich **dwyllo chi**.

Beth yw'r manteision?

Mae taliadau uniongyrchol wastad wedi bod yn ddeniadol, ond bellach maen nhw'n haws fyth i'w rheoli:



Rhwydd ei ddefnyddio



Cewch fynediad i'r system 24 awr gyda diweddariadau mewn amser go iawn



Nid oes angen i chi reoli cyfrif banc



Mae'n gwbl ddiogel



Mae'n torri i lawr ar gofnodion papur



Chi fydd yn rheoli eich cefnogaeth

Beth yw'r Waled Rithwir?

Mae Waled Rithwir yn system hwylus sy'n eich galluogi i reoli eich taliadau uniongyrchol mewn amgylchedd ar-lein diogel, gan roi rheolaeth lawn i chi o'r gyllideb a neilltuwyd i chi a'r gefnogaeth rydych yn ei derbyn.

Sut mae'n gweithio?

- 1 Mae Cyngor Sir Powys yn ychwanegu arian at eich Waled Rithwir
- 2 Chi sy'n trefnu eich gofal a'ch cymorth, adolygu anfonebau a chymeradwyo taflenni amser
- 3 Mae'r Waled Rithwir yn talu eich darparwr gofal: cynorthwywyr personol, micro-fentrau cymunedol ac asiantaethau

Sut ydw i'n cofrestru fy hun ar Waled Rithwir?

- 1 Siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol**, neu Public Partnerships (PPL) – partner Cyngor Sir Powys ar y prosiect hwn
- 2 Bydd tîm cymorth PPL yn anfon** eich manylion mewngofnodi atoch chi a chanllaw defnyddiol 'Sut i roi cychwyn ar bethau' trwy e-bost
- 3 Rydych yn mewngofnodi** i'ch Waled Rithwir a chreu archebion micro gyda'r darparwyr cymorth o'ch dewis: cynorthwywyr personol, micro-fentrau cymunedol ac asiantaethau
- 4 Mae eich darparwr cymorth yn creu anfonebau** a thafenni amser trwy eich Waled Rithwir, i chi eu hadolygu a'u cymeradwyo
- 5 Bydd y Waled Rithwir yn talu** eich darparwyr cymorth

Sut olwg sydd ar hyn?



Gwiriwch eich balans i weld pa arian sydd wedi mynd i mewn ac allan - yn union fel cyfriflen banc



Chwiliwch am wahanol ddarparwyr, cynorthwywyr personol, gwasanaethau a chynhyrchion yn y farchnad



Gwelwch eich calendr cymorth a golygu eich apwyntiadau



Gallwch gael mynediad i'ch Waled Rithwir ar unrhyw ddyfais sy'n gweithio ar y we 24/7. Ewch am daith o amgylch y Waled yn: www.myvirtualwallet.co.uk/powys



Os oes gennych gwestiynau - cysylltwch â thîm cymorth Waled Rithwir:

info@myvirtualwallet.co.uk | sgwrsio dros y we www.myvirtualwallet.co.uk/powys

03300 582692 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5pm)